OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 395 (Cy.54)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *25 Chwefror 2003* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 175, 323 a 333 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) ac adrannau 40, 89(1), 91(1) a 93(2) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**2**) a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

### Dehongli

**2.** Yn y rheoliadau hyn—

ystyr "yr apelydd" ("*the appellant*") yw person sy'n rhoi hysbysiad apêl i'r Cynulliad Cenedlaethol;

ystyr "awdurdod cynllunio lleol" ("*local planning authority*") yw'r corff sy'n dyroddi'r hysbysiad gorfodi perthnasol;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(**1**) 1990 p.8; trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 175 a 323, mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo a breinir hwy bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 4 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253 (Cy.5)) ac Atodlen 3 iddo. Mae adran 175 yn cynnwys diwygiadau nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Diwygiwyd adran 323 gan baragraff 26 o Atodlen 3 i'r Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992 (p.53).

(**2**) 1990 p.9; trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Mae adran 89(1) yn cymhwyso'r darpariaethau gwneud rheoliadau a gynhwysir yn adran 323 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i'r Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) at ddibenion y Rheoliadau hyn.

ystyr "y Ddeddf Adeiladau Rhestredig" ("*the Listed Buildings Act*") yw Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**3**);

mae cyfeiriad at adran 39 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig yn cynnwys cyfeiriad at yr adran honno fel y'i cymhwyswyd gan adran 74(3) o'r Ddeddf honno (apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi ardal gadwraeth);

ystyr "y Ddeddf Gynllunio" ("*the Planning Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

mae "dogfen" ("*document*") yn cynnwys ffotograff, map neu blan;

ystyr "dyddiad dechrau" ("*starting date*") yw dyddiad hysbysiad ysgrifenedig y Cynulliad Cenedlaethol i'r apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol o dan reoliad 4;

ystyr "holiadur" ("*questionnaire*") yw dogfen ar ffurf a ddarperir gan y Cynulliad Cenedlaethol i awdurdodau cynllunio lleol at ddibenion achos o dan y Rheoliadau hyn;

ystyr "hysbysiad apêl" ("*notice of appeal*") yw hysbysiad apêl o dan adran 174(3) o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 39(2) o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig;

ystyr "hysbysiad gorfodi" ("*enforcement notice*") yw hysbysiad a ddyroddir o dan adran 172(1) o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 38(1) o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig;

ystyr "y Rheoliadau Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau" ("*the Enforcement Notices and Appeals Regulations*") yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2003(**4**); ac

mae "sylwadau ysgrifenedig" ("*written representations*") yn cynnwys dogfennau ategol.

**Cymhwyso'r Rheoliadau hyn**

**3.**—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys os, wedi iddynt ddod i rym, bydd apelydd yn rhoi gwybod i'r Cynulliad Cenedlaethol yn yr hysbysiad apêl am ddymuniad i'r apêl gael ei phenderfynu ar sail sylwadau ysgrifenedig.

(2) Pan na fydd apêl o dan adran 174 o'r Ddeddf Gynllunio (apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi) neu adran 39 o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig (apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig neu ardal gadwraeth) yn cael ei phenderfynu ar sail sylwadau ysgrifenedig a phan fydd yr apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol yn rhoi gwybod i'r Cynulliad Cenedlaethol eu bod yn dymuno iddo gael ei phenderfynu ar y sail honno, bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys i'r achos i unrhyw raddau ag y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn eu pennu gan roi ystyriaeth i unrhyw gamau a gymerwyd eisoes mewn perthynas â'r achos hwnnw.

(3) Bydd y Rheoliadau hyn yn peidio â bod yn gymwys i'r achos os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi gwybod i'r apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol y bydd yn rhoi cyfle iddynt ymddangos gerbron person a benodir ganddo at y diben hwn a chael ei wrando gan y person hwn.

**Hysbysu cael apêl**

**4.** Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, hysbysu'r apelydd a'r awdurdod cynllunio lleol yn ysgrifenedig am—

(a) y dyddiad dechrau;

(b) y cyfeirnod a ddyrannwyd i'r apêl;

(c) y cyfeiriad y mae unrhyw gyfathrebu ysgrifenedig am yr apêl at y Cynulliad Cenedlaethol i gael eu hanfon iddo; ac

(**3**) 1990 p.9; diwygiwyd adran 39 gan baragraff 3 o Atodlen 3 i Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991 (p.34), diwygiwyd Atodlen 3 gan adran 25 o'r Ddeddf honno ac Atodlen 3, Rhan II, paragraff 28 iddi, a chan O.S. 1997/2971. Diwygiwyd adran 12 gan adran 17 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992 (p.42). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**4**) O.S. 2003/394 (Cy.53).

(ch) y sail, neu'r seiliau, o dan adran 174(2) o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 39(1) o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig, yn ôl y digwydd, dros apelio.

**Hysbysiad i bartïon sydd â buddiant**

**5.**—(1) Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol, o fewn 2 wythnos o'r dyddiad dechrau, roi hysbysiad apêl i unrhyw—

(a) berson y cyflwynwyd copi o'r hysbysiad gorfodi iddo;

(b) meddiannydd eiddo yn yr ardal lle lleolir y tir y mae'r hysbysiad gorfodi yn berthnasol iddo; ac

(c) personau eraill yr effeithir arnynt ym marn yr awdurdod cynllunio lleol gan dorri ar y rheolaeth gynllunio neu fynd yn groes i reolaeth adeiladau rhestredig neu ardaloedd cadwraeth ac a honnir yn yr hysbysiad gorfodi.

(2) Rhaid i'r hysbysiad a roddir o dan baragraff (1) gynnwys—

(a) enw'r apelydd a chyfeiriad y tir y mae'r apêl yn berthnasol iddynt;

(b) y dyddiad dechrau;

(c) y cyfeirnod a ddyrannwyd i'r apêl;

(ch) disgrifiad o'r torri honedig ar y rheolaeth;

(d) yn achos apêl yn erbyn hysbysiad gorfodi o dan adran 172 o'r Ddeddf Gynllunio, datganiad sy'n nodi'r materion ychwanegol a bennir yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau;

(dd) y sail, neu'r seiliau, o dan adran 174(2) o'r Ddeddf Gynllunio neu adran 39(1) o'r Ddeddf Adeiladau Rhestredig, yn ôl y digwydd, dros apelio;

(e) datganiad y gellir anfon sylwadau i'r Cynulliad Cenedlaethol fel ei fod yn eu cael o fewn 6 wythnos o'r dyddiad dechrau a'r cyfeiriad y dylid anfon y sylwadau hynny iddo;

(f) datganiad yr anfonir unrhyw sylwadau a wneir gan berson a grybwyllir ym mharagraff (1) at yr apelydd ac i'r awdurdod cynllunio lleol; ac

(ff) datganiad y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried y sylwadau hynny pan fydd yn penderfynu'r apêl oni bai fod unrhyw berson a grybwyllir ym mharagraff (1) yn eu tynnu yn ôl o fewn 6 wythnos o'r dyddiad dechrau.

**Holiadur**

**6.**—(1) Rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol a chopïo i'r apelydd, fel eu bod yn eu derbyn o fewn 2 wythnos o'r dyddiad dechrau —

(a) holiadur wedi'i gwblhau; a

(b) copi o bob un o'r dogfennau y cyfeirir atynt ynddo.

(2) Rhaid i'r holiadur ddatgan y dyddiad yr anfonir ef i'r Cynulliad Cenedlaethol arno.

**Sylwadau**

**7.**—(1) Sylwadau'r apelydd, mewn perthynas â'r apêl, yw'r hysbysiad apêl, y dogfennau sy'n mynd gydag ef ac unrhyw ddatganiad a anfonir o dan reoliad 5 o'r Rheoliadau Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau.

(2) Caiff yr awdurdod cynllunio lleol ddewis trin yr holiadur, y dogfennau a anfonir gydag ef a'r datganiad a anfonir o dan reoliad 8 o'r Rheoliadau Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau, fel ei sylwadau mewn perthynas â'r apêl; ac, os gwnaiff felly, rhaid iddo hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol a'r apelydd yn unol â hynny pan fydd yn anfon yr holiadur neu'n anfon un copi yn unol â rheoliad 6.